**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS/MS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

6 Chwefror 2026

Annwyl Mike,

Fel yr ymrwymais i'w wneud, rwy'n ysgrifennu atoch yn sgil fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor ynghylch Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd ac Etholiadau Aelodau), yn benodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r mater yn ymwneud â Llywodraeth Cymru yn cael cydsyniad Gweinidog y Goron ynghylch darpariaethau yn adran 4 o'r Bil. Rwyf hefyd yn rhoi eglurhad, fel y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor, o ran y manylion a nodwyd yn argymhellion 8 a 9 o adroddiad y Pwyllgor.

O ran cydsyniad Gweinidog y Goron, mae Llywodraeth Cymru wedi ymwneud yn gadarnhaol ag adrannau perthnasol o Lywodraeth y DU, a hwyluswyd hyn gan Swyddfa Cymru. Rydym yn parhau i gydweithio yn gynhyrchiol ac yn ddi-oed er mwyn cael y cydsyniadau priodol y mae eu hangen. Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor a Phwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau wrth i'n trafodaethau fynd rhagddynt a dirwyn i ben.

O ran argymhelliad 8 a 9, cyfyngedig yw'r berthynas rhwng y darpariaethau yn adran 11 o'r Bil (y rheoliadau sy'n ymwneud â phôl adalw) ac adran 22 o'r Bil, sy'n cynnwys y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i greu'r drosedd i wahardd gwneud, neu gyhoeddi, datganiadau o ffaith anwir neu gamarweiniol. Maent yn ymdrin â dau bŵer ar wahân i wneud is-ddeddfwriaeth ac yn ymwneud â dau ddigwyddiad etholiadol gwahanol, er hynny, ceir cysylltiad. Daw'r berthynas gyfyngedig rhwng adran 11 o'r Bil ac adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") fel y'i diwygiwyd gan adran 22 o'r Bil o ganlyniad i adran 11(3)(a)(ii), sy'n darparu pŵer i gymhwyso neu ymgorffori darpariaethau a wneir gan Orchymyn o dan adran 13 o Ddeddf 2006, neu o dan Orchymyn o'r fath. Unwaith y bydd trosedd yn cael ei chreu a'i hychwanegu at y troseddau (etholiadol) presennol a nodir yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) yn unol â'r ddyletswydd yn adran newydd 13(2A), effaith hyn yw y gellid cymhwyso neu ymgorffori'r drosedd honno wedi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hynny mewn rheoliadau a wneir o dan adran 11 ynghylch cynnal polau adalw, a hynny yn rhinwedd y ddarpariaeth yn adran 11(3)(a)(ii) o'r Bil.

Mae diwygio adran 13 o Ddeddf 2006 gan adran 22 o'r Bil, ar y cyd ag adran 11(3)(a)(ii), yn rhoi y tu hwnt i amheuaeth y gallai rheoliadau o dan adran 11(1) gynnwys math o ddarpariaeth sy'n ofynnol ac a awdurdodir gan adran 13 o Ddeddf 2006 fel y byddai'n cael ei diwygio.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery